




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 Canllaw i ddefnyddwyr data



Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-17 Canllaw i ddefnyddwyr data

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Lisa Walters

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6685

E-bost: lisa.walters@llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, ac eithrio lle nodwyd fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Cynllun a methodoleg yr arolwg	3
2.1 Cefndir yr arolwg	3
2.2 Samplu	4
2.3 Cyfnodau gwaith maes	4
2.4 Adroddiad Technegol	4
2.5 Adroddiad Ansawdd	4
3. Trosolwg ar y setiau data	5
3.1 Cronfeydd data	5
3.2 Gweld y data	5
3.3 Strwythur y cronfeydd data	5
3.4 Newidynnau deilliedig	7
3.5 Gwerthoedd coll	7
4. Dadansoddi'r data	9
4.1 Deall y pwysoliadau	9
4.2 Dadansoddi ymatebwyr	12
4.3 Dadansoddi aelwydydd	13
4.4 Dadansoddi'r holl bobl mewn aelwydydd	13
4.5 Dadansoddi newidynnau ymatebion lluosog	14
5. Cyfyngiadau ar y fethodoleg	15
6. Enghreifftiau o gystrawen ar gyfer dadansoddi data	16
6.1 Stata	16
6.2 SPSS	17
8. Termau a diffiniadau	21

1. Cyflwyniad

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn astudiaeth gynhwysfawr o oedolion ledled Cymru. Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, ac yn holi pobl am eu profiad o wasanaethau cyhoeddus a'u bodlonrwydd arnynt, am eu hardal leol ac am agweddau eraill ar eu bywydau. Mae'r arolwg yn darparu canlyniadau ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol. Gwneir defnydd o'r wybodaeth a gesglir wrth ddatblygu polisi a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Y bwriad o'r cychwyn oedd trefnu i'r data fod ar gael i'r cyhoedd ar gyfer dadansoddi eilaidd. Nod y ddogfen hon yw darparu arweiniad i ddefnyddwyr dichonol a phartïon cysylltiedig eraill ar sut i wneud dadansoddiadau syml.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cefndir yr arolwg a methodoleg yr arolwg, ac yn rhoi rhai enghreifftiau o gystrawen SPSS a Stata i helpu defnyddwyr y data i'w dadansoddi.

Mae disgrifiad mwy manwl o'r ffordd o gynnal yr arolwg yn yr [Adroddiad Technegol](#). Mae rhagor o wybodaeth am gefndir yr arolwg, yn cynnwys [gwybodaeth a ddarparwyd i ymatebwyr](#) a'r [holiaduron llawn](#), ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

2. Cynllun a methodoleg yr arolwg

2.1 Cefndir yr arolwg

Dechreuwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2012 drwy gynnal cyfweiliadau wyneb yn wyneb, 25 munud o hyd â hapsampl o ymatebwyr. Cafwyd adolygiad o'r arolwg yn 2015 a phenderfynwyd cyfuno pum arolwg cymdeithasol mawr a oedd yn cael eu cynnal yng Nghymru i greu un arolwg.

O 2016-17 ymlaen fe ehangwyd yr arolwg i gynnwys pynciau a oedd gynt yn rhan o Arolwg Iechyd Cymru, yr Arolwg Oedolion Egnïol, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru.

Ar ei ffurf newydd mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg wyneb yn wyneb blynyddol, 45 munud o hyd o fwy na 10,000 o oedolion (16+ oed) sy'n byw mewn aelwydydd preifat ledled Cymru. Nod yr arolwg yw darparu gwybodaeth gynrychiadol, ddibynadwy a chyfoes am bobl Cymru at lefel yr awdurdodau lleol.

Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth fawr o bynciau fel y gellir canfod cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi. Y pynciau yn 2016-17 oedd:

- Llesiant
- Cydlyniant cymunedol
- Diogelwch cymunedol
- Gwirfoddoli
- Gwasanaethau awdurdodau lleol
- Democratiaeth a deall cynghorau lleol
- Addysg gynradd ac uwchradd
- Gofal plant
- Y Rhyngwrdd a gwefannau gwasanaethau cyhoeddus
- Rheolaeth ar drethi
- Iechyd cyffredinol ac afiechydon
- Cynllun gofal personol
- Rhwystrau i bobl anabl mewn cymdeithas
- Gwasanaethau iechyd – meddygon teulu, ysbytai, ambiwlans
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol
- Iechyd plant (gwyllo sgriniau, gweithgarwch corfforol a deiet)
- Gofal llygaid, y golwg, y clyw a dannedd
- Ffyrdd iach o ymddwyn (ffrwythau a llysiau, alcohol, ysmegu, ymarfer, BMI)
- Trafnidiaeth a Theithio llesol
- Amddifadedd materol (aelwyd, pensiynwr a phlentyn)
- Cynhwysiant ariannol, cyngor ar ddyledion a defnyddio banciau bwyd
- Ymweliadau yn yr awyr agored
- Bioamrywiaeth, y newid yn yr hinsawdd, gweithredu amgylcheddol a pherygl o lifogydd
- Llyfrgelloedd, y Celfyddydau, amgueddfeydd a threftadaeth
- Cymryd rhan mewn chwaraeon, y galw, aelodaeth o glybiau a phrofiadau yn yr ysgol
- Graddfa Lles Meddwl Warwick-Edinburgh
- Unigrwydd
- Cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd

Mae'r holiadur cyfan ar gael yn <http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2016/160817-national-survey-questionnaire-2016-17-cy.pdf> Bydd y pynciau sydd yn yr holiadur yn newid o flwyddyn i flwyddyn i gadw'n wastad â newid yn anghenion defnyddwyr yr arolwg.

Adroddir ar ganlyniadau'r arolwg mewn Datganiad Cyntaf ac mewn cyfres o Fwletinâu Ystadegol a gyhoeddir ar dudalen [datganiadau'r Arolwg Cenedlaethol](#) ym mis Mehefin bob blwyddyn. Gellir gweld tablau a siartiau o'r data hefyd yn ein [dangosydd canlyniadau](#).

2.2 Samplu

Pwrpas yr arolwg yw darparu sampl sy'n gynrychiadol o'r boblogaeth o oedolion sy'n byw yng Nghymru mewn aelwydydd preifat. Gellir gweld canlyniadau ar wahanol lefelau daearyddol fel lefel yr awdurdod lleol a lefel y bwrdd iechyd lleol (er mai dim ond is-sampl o ymatebwyr sy'n cael ei holi am rai pynciau, er mwyn cael canlyniadau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol yn unig).

Bob blwyddyn, mae ychydig mwy na 21,000 o gyfeiriadau'n cael eu dewis ar hap o ffeil 'Small User Residential Postcode Address' y Post Brenhinol. Bydd cyfwelwyr yn ymweld â phob cyfeiriad, yn casglu gwybodaeth syml am gyfansoddiad yr aelwyd ac wedyn yn dewis un oedolyn (16+ oed) ar hap i'w gyf-weld. Cyflawnwyd mwy na 10,000 o gyfweliadau yn 2016-17. Roedd maint y sampl ar gyfer pob awdurdod lleol mewn cyfrannedd â phoblogaeth yr awdurdod lleol hwnnw. Fodd bynnag, pennwyd maint y sampl i'w fyddai'n effeithiol ym mhob ardal awdurdod lleol, sef 250 o gyfweliadau. Y gyfradd ymateb yn 2016-17 oedd 55%.

2.3 Cyfnodau gwaith maes

Mae'r arolwg yn rhedeg yn ddi-dor a bydd cynnwys yr holiadur yn newid ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Roedd pynciau 2016-17 wedi'u cynnwys rhwng diwedd Mawrth 2016 a Mawrth 2017.

2.4 Adroddiad Technegol

Mae'r holl fanylion am y dull o gynnal yr arolwg yn yr [Adroddiad Technegol](#). Mae'r Adroddiad Technegol yn darparu gwybodaeth am gynllun yr arolwg, sut y datblygwyd yr holiadur, gwaith maes a gweithdrefnau prosesu data, yn ogystal â gwybodaeth am bwysoli a chyfraddau ymateb i'r arolwg.

2.5 Adroddiad Ansawdd

Mae [Adroddiad Ansawdd](#) ar gael hefyd sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

3. Trosolwg ar y setiau data

3.1 Setiau data

Mae pedair uned dadansoddi sylfaenol ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol. Cesglir gwybodaeth am yr ymatebydd, yr aelwyd, aelodau eraill yr aelwyd, a'r cyfeiriad. Cedwir y wybodaeth am y rhain mewn tair set ddata ar wahân sydd wedi'u disgrifio isod.

Ffeil yr ymatebwyr

Hon yw'r brif set ddata i'w defnyddio. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd oddi wrth yr ymatebydd am yr ymatebydd a'r aelwyd.

Mae'r set ddata hon yn cynnwys holl atebion yr ymatebwyr yn yr arolwg gan gynnwys gwybodaeth ddemograffig amdanynt fel eu hoed, rhyw, statws economaidd, iechyd cyffredinol, a'u barn am wasanaethau cyhoeddus a'u hardal leol. Mae'r set ddata hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am yr aelwyd ei hun fel manylion yr ardal, deiliadaeth, cyfansoddiad yr aelwyd, ac a oes gan yr aelwyd fynediad i'r rhyngwyd neu fand eang.

Yn ogystal â hyn, mae'r set ddata hon yn cynnwys pwysoliadau y gellir eu cymhwyso at y data fel y bydd y wybodaeth yn gynrychiadol o'r holl oedolion neu'r holl aelwydydd yng Nghymru, fel y bo'n briodol ar gyfer pob pwnc. Mae rhagor o fanylion am bwysoliadau a sut i'w defnyddio yn adran 4.1.

Mae'r ffeil hon ar gael i'w lawrlwytho ar wefan [Gwasanaeth Data](#) y DU. Gellir cael newidynnau mwy manwl, fel yr Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) ar gyfer pob achos, drwy wneud cais: cysylltwch â thîm yr Arolwg Cenedlaethol yn arolygon@llyw.cymru.

Ffeil yr holl bobl

Mae'r set ddata hon yn cynnwys gwybodaeth syml am holl aelodau'r aelwyd sy'n byw yn y cyfeiriadau a ddewiswyd. Er enghraifft, byddwn yn gofyn am oed a rhywedd holl aelodau'r aelwyd yn ogystal â'u perthynas â'r ymatebydd a ddewiswyd. Gellir trefnu i'r set ddata hon fod ar gael at ddibenion ymchwil yn unig drwy wneud cais: cysylltwch â thîm yr Arolwg Cenedlaethol yn arolygon@llyw.cymru.

Ffeil y sampl

Mae'r set ddata hon yn cynnwys gwybodaeth ddienw am yr holl gyfeiriadau a ddewiswyd ar gyfer cyfweiliad. Er enghraifft, a oeddent wedi cymryd rhan yn yr arolwg, wedi gwrthod neu a oedd yr eiddo'n adfeiliedig etc. Mae hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth wedi'i chodio gan y cyfwelydd am ei argraffiadau o'r eiddo. Gellir trefnu i'r set ddata hon fod ar gael at ddibenion ymchwil yn unig drwy wneud cais: cysylltwch â thîm yr Arolwg Cenedlaethol yn arolygon@llyw.cymru.

3.2 Strwythur y setiau data

Mae gwybodaeth gefndir yn yr adran sy'n dilyn am y ffordd y mae'r setiau data wedi'u trefnu.


Adnabod achosion

Rhoddwyd rhif adnabod unigryw i bob cyfeiriad, sydd wedi'i storio fel 'AddNo'. Yn Ffeil yr holl bobl, rhoddwyd cod adnabod i bob person mewn aelwyd (cyfeiriad), 'Person'. Yn Ffeil y sampl, rhoddwyd cod adnabod unigryw 'HhNo' i Aelwydydd sy'n un o nifer mewn un pwynt cyfeiriad.

Enwau'r newidynnau

Mae'r newidynnau wedi'u henwi i adlewyrchu'r cwestiynau a ofynnwyd a'r grŵp o gwestiynau y maent yn perthyn iddo. Gellir gweld rhestr lawn o'r newidynnau yn y [catalog newidynnau](#), ac mae hwn yn lle da i ddechrau wrth benderfynu pa ganlyniadau o'r arolwg i'w dadansoddi.

Mae'r sgrinlun isod o set ddata'r ymatebwyr yn dangos y math o newidynnau sydd wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol, a sut maent wedi'u dangos yn SPSS.



	Name	Type	Width	Decimals	Label	Values	Missing	Columns	Align	Measure	Role
1	AddNo	Numeric	12	0	Address Number	None	-99 - -8	9	Right	Scale	Input
2	Year	Numeric	5	0	Year	None	-99 - -8	5	Right	Scale	Input
3	Month	Numeric	2	0	Month of issue	{1, January}...	None	7	Left	Nominal	Input
4	Incentive	Numeric	1	0	Included in incentive sub-sample	{1, No incentive}...	-99 - -8	11	Right	Nominal	Input
5	Langint	Numeric	1	0	Language of the interview	{1, English}...	-99 - -8	7	Right	Scale	Input
6	NumPep	Numeric	2	0	Number of people in household	None	-99 - -8	8	Right	Scale	Input
7	NumAdult	Numeric	2	0	Number of adults in household (16 and over)	None	-99 - -8	8	Right	Scale	Input
8	NumChild	Numeric	1	0	Number of children in household (under 16)	None	-99 - -8	8	Right	Scale	Input
9	Gender	Numeric	1	0	Gender	{-99, Refused}...	-99 - -3	10	Right	Nominal	Input
10	Age	Numeric	3	0	Age at time of interview	None	-99 - -8	5	Right	Nominal	Input
11	HallRes	Numeric	1	0	Is respondent living in halls of residence?	{-99, Refused}...	-99 - -8	7	Right	Nominal	Input
12	HH16_19...	Numeric	1	0	Is respondent aged 16-19 and currently in full-time educati...	{-99, Refused}...	-99 - -8	11	Right	Nominal	Input
13	MarStat	Numeric	1	0	Marital status	{-99, Refused}...	-99 - -8	7	Right	Nominal	Input
14	MarChk	Numeric	1	0	Is spouse a member of the household?	{-99, Refused}...	-99 - -8	6	Right	Nominal	Input
15	LivWith	Numeric	1	0	Is respondent living with someone in the household as a c...	{-99, Refused}...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
16	NatIdWel	Numeric	1	0	National Identity - Welsh	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
17	NatIdEng	Numeric	1	0	National Identity - English	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
18	NatIdScot	Numeric	1	0	National Identity - Scottish	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
19	NatIdNI	Numeric	1	0	National Identity - Northern Irish	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
20	NatIdBrit	Numeric	1	0	National Identity - British	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
21	NatIdOth	Numeric	1	0	National Identity - Other	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
22	NatIdOT	String	150	0	National Identity - Other (specified)	None	None	13	Left	Nominal	Input
23	NatIdDk	Numeric	1	0	National Identity - Don't Know (SPONTANEOUS ONLY)	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
24	NatIdRef	Numeric	1	0	National Identity - Refused (spontaneous only)	{-98, Interview ter...	-99 - -8	8	Right	Nominal	Input
25	Ethnicity	Numeric	2	0	Ethnic Group	{-99, Refused}...	-99 - -8	18	Right	Nominal	Input

Categoriâu ymateb un cod

Lle mae cwestiwn yn cael ei ofyn yn yr arolwg ac nad yw'n briodol rhoi mwy nag un ateb (e.e. Ers pa mor hir rydych chi wedi rhoi'r gorau i ysmegu – 'Llai na mis yn ôl', '1 mis i 1 flwyddyn yn ôl', 'Mwy na blwyddyn yn ôl'), mae'r canlyniadau'n cael eu storio fel categori ymateb un cod mewn un newidyn.

Categoriâu ymateb aml-god

Mae rhai cwestiynau'n galluogi'r ymatebydd i roi mwy nag un ateb ac mae'r cyfweilydd yn cael ei gyfarwyddo i 'godio pob un sy'n berthnasol' (e.e. yn y mis diwethaf, pa rai o'r gwefannau hyn rydych chi wedi ymweld â nhw? - 'Facebook', 'Flickr', 'YouTube' etc).

Mewn achosion o'r fath, bydd newidyn ar gyfer pob categori ateb. Er enghraifft, bydd newidyn ar wahân bob un ar gyfer 'Facebook', 'Flickr' a 'YouTube' a byddant yn cael eu codio fel newidynnau deuaidd (h.y. 1 os yw'r ymatebydd wedi dewis yr ateb, a 0 os nad yw'r ymatebydd wedi dewis yr ateb). Enwau'r newidynnau ar gyfer categorïau ymateb aml-god yw yr un enw ynghyd â rhif ar y diwedd i ddangos yr ateb – h.y. 1 am yr ateb posibl cyntaf, 2 am yr ail ateb posibl etc.

Yn yr enghraifft uchod, defnyddiwyd y system ganlynol:

IntSocTyp1 = Facebook
IntSocTyp2 = Twitter
IntSocTyp3 = Flickr
IntSocTyp4 = YouTube
IntSocTyp5 = Dim un o'r rhain
IntSocTypDk = Ddim yn gwybod
IntSocTypRef = Gwrthod dweud

Mae newidynnau aml-god eraill yn dilyn fformat tebyg.

3.3 Newidynnau deilliedig

Yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnir i ymatebwyr yn uniongyrchol, mae'r ffeil data hefyd yn cynnwys cyfres o newidynnau deilliedig. Newidynnau deilliedig yw'r rheini sy'n cael eu cyfrifo ar sail newidynnau'r holiadur (data crai) a/neu ddata o ffynonellau heblaw'r arolwg er mwyn gallu dadansoddi'r setiau data yn fanylach ac yn rhwyddach. Mae rhai ohonyn nhw'n ymwneud â'r aelwyd, rhai â'r ardal, ac eraill ag unigolion.

Er enghraifft, mae newidyn yr 'awdurdod lleol' yn deillio o'r wybodaeth am y cyfeiriad ac mae newidyn y 'ddeiliadaeth' yn deillio o ateb yr ymatebydd i gwestiynau am ei gartref. Mae'r llythrennau 'Dv' ar ddechrau enw pob newidyn deilliedig.

Gallwch weld rhestr lawn o'r newidynnau deilliedig yn y [catalog newidynnau](#). Mae manylion ar gael am y ffordd y cafwyd newidynnau deilliedig penodol drwy wneud cais drwy'r e-bost i dîm yr Arolwg Cenedlaethol yn arolygon@llyw.cymru.

3.4 Gwerthoedd coll

Mae gwerth yn cael ei gofnodi wrth bob ymatebydd ar gyfer pob newidyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae'r gwerth yn cael ei alw'n god 'gwerth coll'. Wrth gyflawni dadansoddiadau, bydd gwerthoedd coll yn cael eu gadael allan fel arfer. Mae rhagor o wybodaeth isod am y mathau o godau am 'werthoedd coll' yn y set ddata.

Heb ei ddewis yn yr is-sampl

Ar gyfer rhai pynciau yn yr arolwg, dim ond ar lefel genedlaethol neu ranbarthol yr oedd angen cael y canlyniadau. Felly er mwyn defnyddio amser yr arolwg yn y ffordd fwyaf effeithiol, mae rhai setiau o gwestiynau wedi'u gofyn i is-sampl o ymatebwyr a ddewiswyd ar hap.

Wrth edrych ar yr holiadur, mae'r is-samplu wedi'i ddangos yn wyrdd yng nghyfarwyddiadau'r [holiadur](#) ar ddechrau pob pwnc lle mae is-sampl i gael ei holi, fel y gwelir isod:

MODIWL IS-SAMPLU: Gofynnwyd i 2,000 o ymatebwyr (i gynhyrchu ffigurau cenedlaethol)

GOFYNNWCH OS 1, 2, 3 neu 4 YN IntFrqAcc

IntGovUse

NS 1214a Ar y cerdyn hwn mae enghreifftiau o wefannau gwasanaethau cyhoeddus neu Lywodraeth Cymru. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwefannau hyn am resymau personol yn y 12 mis diwethaf?

CERDYN 19

UN COD YN UNIG

Ydw 1

Nac ydw 2

Ddim yn gwybod / Methu cofio (DIGYMELL YN 3

UNIG)

EWCH I IntGovSat

EWCH I
IntGovTrXUse

[Diwedd y modiwl]

Lle gwelir y cyfarwyddiadau hyn, maent yn gymwys i weddill y cwestiynau yn y modiwl hwnnw os na nodwyd fel arall. Mae rhagor o fanylion ynghylch pa bynciau sydd i gael eu trafod drwy holi is-sampl yn Atodiad A i'r [holiadur](#). Bydd angen cymhwyso set wahanol o bwysoliadau at y cwestiynau a ofynnir i is-sampl. Mae'r pwysoliad priodol yn cael ei ychwanegu at label y newidynnau mewn is-samplau yn y set ddata. Mae rhagor o fanylion am y rhain yn yr adran ar bwysoliadau.

Cwestiynau sydd heb eu gofyn oherwydd cyfarwyddiadau

Nid yw'r holl cwestiynau'n gymwys i'r holl ymatebwyr. Mae'n bosibl y bydd adran gyfan o'r holiadur yn anaddas i rai ymatebwyr (e.e. cwestiynau i rieni sydd â phlant yn yr ysgol). Mewn achosion arall, gall un cwestiwn fod yn amhriodol (e.e. mae ymatebydd wedi dweud nad yw'n defnyddio'r rhyngwrdd, felly ni chaiff ei holi am y gwefannau y mae wedi ymweld â nhw). Yn y ddau achos hyn rhoddir y label gwerth -8 i'w 'hatebion', 'Cwestiwn heb ei ofyn oherwydd cyfarwyddiadau'.

Terfynu cyfweiliad yn gynnar

Gall ymatebydd benderfynu dod â'r cyfweiliad i ben cyn cyrraedd y cwestiwn olaf. Mewn achos o'r fath, bydd ei atebion hyd y pwynt hwnnw'n cael eu cynnwys yn y set ddata ac o'r pwynt hwnnw ymlaen rhoddir y label gwerth -98 i'w holl 'atebion', 'Cyfweiliad wedi'i derfynu'n gynnar'.

Codau am 'ddim yn gwybod' a 'gwrthod dweud'

Ym mwyafrif y cwestiynau, nid yw'r opsiynau 'ddim yn gwybod' neu 'gwrthod dweud' yn cael eu cynnig yn benodol. Fodd bynnag, fe all ymatebwyr roi'r ateb "Dydw i ddim yn gwybod" yn ddigymell neu wrthod ateb y cwestiwn. Mae'r atebion hyn yn cael eu cofnodi gan y cyfweilydd a'u dosbarthu fel a ganlyn:

- Gwrthod dweud -99
- Ddim yn gwybod -9.

Mae'r holl werthoedd coll sydd wedi'u nodi uchod yn cael eu codio fel 'missing values' yn SPSS.

Mae'r sgrinlun isod yn dangos sut mae tri opsiwn ymateb wedi'u codio fel gwerthoedd coll a sut maent yn cael eu dangos wrth redeg gweithdrefn canfod amllder yn SPSS:

Public service communications - Visited any of these websites for personal purposes in the last 12 months
[SampleIntWeight]

		Frequency	Percent	Valid Percent	Cumulative Percent
Valid	Yes	1425	13.6	64.3	64.3
	No	791	7.5	35.7	100.0
	Total	2216	21.1	100.0	
Missing	Interview terminated early	17	.2		
	Not selected in sub-sample	8246	78.6		
	Don't know (SPONTANEOUS ONLY)	14	.1		
	Total	8277	78.9		
Total		10493	100.0		

4. Dadansoddi'r data

4.1 Deall y pwysoliadau

Wrth ddadansoddi'r data, y bwriad yn aml yw gwneud datganiadau am nodweddion, agweddau meddwl neu brofiadau'r holl oedolion yng Nghymru – nid y bobl yn y sampl yn unig. Mae pwysoliadau'r arolwg yn gallu'ch helpu i wneud hyn drwy sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu proffil oed a rhyw y boblogaeth gyffredinol ac felly bod y canlyniadau'n gynrychiadol o'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, cyn mynd ati i gynnal dadansoddiad penodol, mae'n bwysig deall pa bwysoliad y bydd angen ei ddefnyddio ar gyfer y dadansoddiad hwnnw.

Ar gyfer rhai pynciau yn yr Arolwg Cenedlaethol, dim ond ar lefel genedlaethol neu ranbarthol y mae angen cael canlyniadau. Felly mae'r cwestiynau am y pynciau hynny wedi'u gofyn i is-sampl a ddewiswyd ar hap yn unig. Gan fod pob un o'r setiau hyn o gwestiynau i is-samplau wedi'u gofyn i is-sampl wahanol, mae angen rhoi pwysoliad gwahanol i bob is-sampl er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu proffil oed a rhyw y boblogaeth gyffredinol.

Mae crynodeb isod o'r pwysoliadau a geir yn ffeil yr ymatebwyr, beth maent yn ei wneud a pha bryd y dylid eu cymhwyso. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd y cafodd y pwysoliadau eu llunio, gweler yr [adroddiad technegol](#) perthnasol.

Enw'r newidyn	Teitl y pwysoliad	Beth mae'r pwysoliad yn ei wneud	Pryd y dylid defnyddio'r pwysoliad hwn
SampleAdultWeight	Pwysoliad i beri i'r sampl adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r sampl i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o'r dadansoddiadau o bobl (yn hytrach nag aelwydydd). Mae i'w ddefnyddio os gofynnwyd y cwestiynau i bawb ac nid i is-sampl yn unig
SampleHhWeight	Pwysoliad i beri i'r sampl adlewyrchu nodweddion yr holl aelwydydd yng Nghymru	Mae'n addasu'r sampl i roi'r un dosbarthiad o ran deiliadaeth/awdurdodau lleol â'r aelwydydd yng Nghymru; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sy'n gymaint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o'r canlyniadau am aelwydydd (yn hytrach na phobl)
SampleBioWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Bioamrywiaeth adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y cwestiynau am fioamrywiaeth iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Bioamrywiaeth

	(16+) yng Nghymru	darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	
SampleChildWeight	Pwysoliad i beri i'r sampl o blant adlewyrchu nodweddion yr holl blant 3-17 oed yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl o rieni a ddewiswyd ar hap i'w holi am eu plentyn i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth o blant; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Plentyn
SampleClimWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Newid Hinsawdd adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am newid hinsawdd iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Newid Hinsawdd
SampleEnvWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Amgylchedd adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am yr Amgylchedd iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Amgylchedd
SampleFloodWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Perygl o Lifogydd adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am berygl o lifogydd iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Perygl o Lifogydd
SampleGPWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Gwasanaethau Meddygon Teulu adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am wasanaethau Meddygon Teulu iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Gwasanaethau Meddygon Teulu

SampleHerWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Treftadaeth adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am dreftadaeth iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Treftadaeth
SampleHospWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Ysbytai adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am ysbytai iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Ysbytai
SampleIntWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Rhynggrwyd adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd iddi'r set gwestiynau i is-sampl am y rhynggrwyd i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Rhynggrwyd
SampleLHWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Gwasanaethau Iechyd Lleol adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am wasanaethau iechyd lleol iddi i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Gwasanaethau Iechyd Lleol
SampleSportWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Chwaraeon adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd iddi'r set gwestiynau i is-sampl am chwaraeon yn yr ysgol i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Chwaraeon
SampleTaxWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Treth adlewyrchu	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y set gwestiynau am dreth iddi i roi'r un	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr

	nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	is-sampl Treth
SampleTenHhWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Deiliadaeth adlewyrchu nodweddion yr holl aelwydydd yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd y cwestiynau am ddeiliadaeth iddi i roi'r un dosbarthiad o ran deiliadaeth/awdurdodau lleol â'r aelwydydd yng Nghymru; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sy'n gymaint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio i gyflwyno canlyniadau fel cyfrannau o'r aelwydydd wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Deiliadaeth
SampleTenWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Deiliadaeth adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd iddi'r set gwestiynau i is-sampl am ddeiliadaeth i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Deiliadaeth
SampleVisitsWeight	Pwysoliad i beri i'r is-sampl Ymweliadau CNC adlewyrchu nodweddion yr holl oedolion (16+) yng Nghymru	Mae'n addasu'r is-sampl a ddewiswyd ar hap y gofynnwyd iddi'r cwestiynau am ymweliadau yn yr awyr agored i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r boblogaeth gyffredinol; mae'n darparu maint sampl wedi'i phwysoli sydd o'r un maint â'r sampl sydd heb ei phwysoli.	Y pwysoliad i'w ddefnyddio wrth ddadansoddi'r cwestiynau yn yr is-sampl Ymweliadau
popwtesp	Pwysoliad wedi'i addasu o Boblogaeth Safonol Ewropeaidd 2013	Mae'n addasu'r sampl i roi'r un dosbarthiad oed/rhyw â'r Boblogaeth Safonol Ewropeaidd	Os ydych yn dymuno safoni'ch canlyniadau ar sail oedran – e.e. ar gyfer canlyniadau iechyd

4.2 Dadansoddi ymatebwyr

Nid yw'r rhan fwyaf o'r cwestiynau yn yr arolwg wedi'u gofyn i is-sampl. Wrth ddadansoddi cwestiwn nad yw wedi'i ofyn i is-sampl, os yw'r pwnc yn ymwneud â phobl (yn hytrach nag aelwydydd), yna dylech gymhwyso'r pwysoliad **SampleAdultWeight** i roi cyfrannau neu foddau.

Ar gyfer y cwestiynau hynny a ofynnwyd i is-sampl, dylech gymhwyso'r pwysoliad sy'n gymwys i'r is-sampl honno. Er mwyn helpu defnyddwyr data i ddefnyddio'r pwysoliad cywir, mae gwahanol enwau'r newidynnau yn y cwestiynau i is-samplau yn cynnwys enwau'r pwysoliadau priodol rhwng bachau petryal.

Defnyddiwch SampleGPWeight wrth ddadansoddi'r newidyn hwn

Defnyddiwch SampleHospWeight wrth ddadansoddi'r newidyn hwn

GpDigResp	GP - Treated with dignity and respect [SampleGPWeight]
GpOverSat	GP - Overall satisfaction with care received [SampleGPWeight]
HspHadApp	Hospital - Had an appointment at an NHS hospital in last 12 months [SampleHospWeight]
HspPatType	Hospital - Type of patient [SampleHospWeight]
HspKnewInfo	Hospital - At the start of the appointment, the health professional knew all the relevant information about i
HspDigResp	Hospital - Treated with dignity and respect [SampleHospWeight]
HspOverSat	Hospital - Overall satisfaction with care received [SampleHospWeight]
AmbContact	Ambulance service - Last 12 months, personally contacted the emergency ambulance service in Wales

Dim bachau petryal, felly nid yw'n cael ei ofyn i is-sampl - defnyddiwch SampleAdultWeight

Mae'r holl bwysoliadau sydd yn y set ddata hon yn pwysoli'r canlyniadau i'w codi i'r nifer yn y sampl y gofynnwyd y cwestiwn iddynt, h.y. tua 10,500 o bobl. Os ydych chi, yn lle hynny, am gynhyrchu ffigurau wedi'u seilio ar amcangyfrif o nifer y bobl neu aelwydydd yng Nghymru sydd â nodwedd benodol, cysylltwch â: arolygon@llyw.cymru.

4.3 Dadansoddi aelwydydd

Wrth gynhyrchu canlyniadau ar gyfer aelwydydd, dylech gymhwyso'r pwysoliad SampleHhWeight i gynhyrchu'r canlyniad ar gyfer nifer yr aelwydydd yn y sampl ac i roi'r cyfrannau a moddau ar gyfer newidyn penodol.

Dim ond os mai'r bwriad yw gwneud datganiadau am nodweddion neu brofiadau'r aelwydydd yn y sampl y dylid dadansoddi aelwydydd. Er enghraifft, ar gyfer cwestiynau am fynediad yr aelwyd i'r rhyngwyd neu ddeiliadaeth yr aelwyd (rhentu, perchen-feddiannydd, etc).


4.4 Dadansoddi'r holl bobl mewn aelwydydd

Os ydych am gynhyrchu canlyniadau am bobl sy'n byw mewn aelwydydd sydd â nodweddion aelwyd penodol, rydym yn eich cynghori i gysylltu â thîm yr Arolwg Cenedlaethol yn arolygon@llyw.cymru er mwyn cael 'Ffeil yr holl bobl' ar gyfer gwaith dadansoddi o'r fath.

Er enghraifft, os oeddech am gael gwybod canran y bobl 60+ oed sy'n byw mewn aelwyd sydd â mynediad i'r rhyngwyd, byddai'n bosibl cael y ffigur o 'Ffeil yr ymatebwyr'. Fodd bynnag, yn achos cwestiynau o'r math hwn, bydd yr atebion yn gymwys i bawb sydd yn yr aelwyd. Felly, gan nad yw aelodau eraill yr aelwyd wedi'u cynnwys yn ffeil yr ymatebwyr, mae'n fwy priodol cael y ffigur o 'Ffeil yr holl bobl'.

4.5 Dadansoddi newidynnau ymatebion lluosog

Os ydych yn defnyddio SPSS i ddadansoddi'r data, mae'r cwestiynau sydd â mwy nag un categori ymateb posibl (aml-god), wedi'u diffinio'n setiau ymatebion lluosog. Felly, wrth ddefnyddio'r gorchymyn 'Custom Tables' bydd dewis o newidynnau ychwanegol yn ymddangos ar waelod y rhestr o newidynnau, sef 'multiple response sets'. Mae'r sgrinlun isod yn dangos enghraifft o'r ffordd y maent yn ymddangos yn 'Custom Tables' SPSS:



Rydym yn eich cyngori i ddefnyddio'r setiau ymatebion lluosog i groesdablu categorïau ymateb aml-god. Y rheswm am hyn yw y bydd categorïau ateb fel 'ddim yn gwybod' yn cael eu tynnu o'r gronfa ddata er mwyn rhoi canrannau'r rheini a roddodd ateb dilys.

5. Cyfyngiadau ar y fethodoleg

Rhaid cofio mai amcangyfrifon yw'r ffigurau sy'n deillio o'r Arolwg Cenedlaethol. Fel pob arolwg o samplau, mae amcangyfrifon yr arolwg yn agored i effaith cyfeiliornadau samplu a chyfeiliornadau eraill a gwahanol fathau o gyfyngiadau eraill yn y fethodoleg sy'n ganlyniad i gynllun yr arolwg.

Mae cyfeiliornadau samplu yn codi am fod yr amcangyfrifon wedi'u seilio ar hapsampl o'r boblogaeth yn hytrach na'r boblogaeth gyfan. Mae cyfeiliornadau nad ydynt yn ymwneud â samplu yn cynnwys yr holl wahaniaethau eraill rhwng amcangyfrifon yr arolwg a'r boblogaeth wirioneddol (e.e. gwall cwmplas, gwall diffyg ymateb, gwall mesur a gwall prosesu). Mae rhagor o wybodaeth am gyfeiliornadau samplu a chyfeiliornadau eraill yn [adroddiad Ansawdd](#) yr Arolwg Cenedlaethol.

Mae sampl yr Arolwg Cenedlaethol wedi'i haenu ar lefel yr awdurdodau lleol. Er bod cyfran y sampl ym mhob awdurdod lleol mewn cyfrannedd â nifer y bobl sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol, pennwyd maint sampl effeithiol leiaf o 250 o gyfeiriadau ym mhob ardal awdurdod lleol beth bynnag yw maint ei boblogaeth. Hefyd roedd y sampl wedi'i chynyddu ar gyfer awdurdodau fel Powys i sicrhau bod y canlyniadau'n ddibynadwy ar lefel y Bwrdd Iechyd Lleol. Felly roedd y tebygolrwydd i gyfeiriad gael ei ddewis yn wahanol mewn gwahanol awdurdodau lleol. Un o'r effeithiau o ddefnyddio'r cynllun cymhleth hwn yw bod y cyfeiliornadau safonol ar gyfer amcangyfrifon yr arolwg yn uwch ar y cyfan na'r cyfeiliornadau safonol a fyddai'n deillio o hapsampl syml o'r un maint. Felly pan fyddwch yn cynhyrchu lwfansau ansicrwydd, sy'n seiliedig ar gyfeiliornadau safonol, rydym yn eich cyngori i gymryd cynllun yr arolwg i ystyriaeth. Os na chymerir cynllun yr arolwg i ystyriaeth, yna bydd y lwfansau ansicrwydd yn ymddangos yn llai nag y dylent fod, gan awgrymu bod y canlyniadau'n fwy trachywir nag y maent mewn gwirionedd. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr [Adroddiad technegol](#).

Roedd y sampl hefyd wedi'i chlystyru am 'bwyntiau samplu' ym mhob chwarter blwyddyn, ond wedi'i datglostyru dros y flwyddyn gyfan. Felly, ar gyfer setiau data o'r flwyddyn gyfan nid oes angen darparu ar gyfer clystyru. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi cyfnod sy'n llai na blwyddyn gyfan yr arolwg, dylech gymryd clystyru i ystyriaeth. Mae'n bwysig nodi bod y cwestiwn am dreth wedi cael ei gyflwyno yn yr ail chwarter, felly dylid cymryd clystyru i ystyriaeth er mwyn sicrhau bod y lwfansau ansicrwydd yn gywir. [Cysylltwch â ni](#) i drafod os ydych am wneud hyn.

Er mwyn cynhyrchu lwfansau ansicrwydd, mae angen defnyddio pecyn ystadegol sy'n gallu cymryd cynllun cymhleth yr arolwg i ystyriaeth. Mae Stata ac SPSS (drwy ddefnyddio'r modiwl ychwanegol ar gyfer samplau cymhleth) yn darparu ar gyfer cynllun yr arolwg. Ym Mhennod 6 mae enghreifftiau o gystrawen Stata ar gyfer dadansoddi sy'n darparu ar gyfer cynllun yr arolwg.

6. Enghreifftiau o gystrawen ar gyfer dadansoddi data

Yn yr adran hon, rydym yn darparu enghreifftiau o gystrawen ar gyfer dau becyn meddalwedd cyffredin, Stata ac SPSS, fel arweiniad i ddefnyddwyr sydd am ymgymryd â'r mathau mwyaf cyffredin o ddadansoddi.

Bydd y gystrawen ar gyfer y ddau becyn yn dangos sut i bwysoli data, cynhyrchu croesdablu syml o'r data ac ailgodio newidynnau i'w rhoi mewn categorïau newydd yn Stata ac yn SPSS.

Rydym yn argymhell eich bod yn rhoi ystyriaeth i gynllun cymhleth yr arolwg wrth ddadansoddi. Rydym yn defnyddio Stata i wneud hyn ac i gyfrifo lwfansau ansicrwydd a chyfernodau amrywiant. Felly mae'r adran sy'n dilyn yn dangos sut i gymryd cynllun cymhleth yr arolwg i ystyriaeth cyn dadansoddi, drwy ddefnyddio Stata.

6.1 Stata

Er mwyn darparu ar gyfer cynllun cymhleth yr arolwg yn Stata, mae'n bwysig defnyddio'r gorchymyn 'Svy'. Cyn cynhyrchu unrhyw ganlyniadau o'r arolwg, rhaid i chi nodi pa bwysoliad rydych am ei ddefnyddio a sut mae'r sampl wedi'i haenu a'i chlystyru.

Mae'r cod isod yn dweud wrth Stata beth yw cynllun yr arolwg - eich bod am bwysoli'r data yn ôl 'SampleAdultWeight' a bod y sampl wedi'i haenu ar lefel awdurdodau lleol:

```
svyset [weight= SampleAdultWeight], strata (DvLA)
```

Ar ôl rhedeg y gystrawen hon, bydd yr holl ddadansoddiadau a wneir wedyn yn darparu ar gyfer cynllun cymhleth y sampl wrth gynhyrchu cyfeiliornadau safonol / lwfansau ansicrwydd.

Byddwn yn tynnu 'gwerthoedd coll' cyffredin fel 'Ddim yn gwybod' a 'Gwrthod dweud' o'n newidynnau wrth redeg y dadansoddiad. Er mwyn cyfnewid yr holl 'werthoedd coll' am lythrennau yn nhrefn yr wyddor, gallwch ddefnyddio'r gystrawen ganlynol:

```
foreach v1 of varlist _all {
  capture confirm numeric variable `v1'
  if !_rc {
    di "`v1'"
    replace `v1' = .r if `v1'== -99
    replace `v1' = .s if `v1'== -88
    replace `v1' = .q if `v1'== -8
  }
}
```

Er mwyn darparu canlyniad o'r arolwg ar ffurf 'cymedr' (ar gyfer newidynnau di-dor) defnyddiwch y gystrawen ganlynol:

```
svy: mean WbSatLife
```

Er mwyn darparu canlyniad o'r arolwg ar ffurf 'cyfran' (ar gyfer newidynnau categorïaidd) defnyddiwch y gystrawen ganlynol:

```
svy: proportion UaQualServ
```

Er mwyn cynhyrchu croesdablu o ‘gymedr’ neu ‘gyfran’ defnyddiwch y gystrawen ganlynol:

```
svy: proportion UaQualServ, over (Gender)
svy: mean WbSatLife, over (Gender)
```

Er mwyn ailgodio newidynnau i wneud newidynnau newydd neu gyfuno categorïau gallwch ddefnyddio (neu addasu) y gystrawen ganlynol:

```
label define agreecon 1 "Agree" 2 "Neither_Agree_ nor_Disagree" 3 "Disagree"

foreach vl of varlist UaQualServ UaComPerf UaPerfInfo UaInfDecs UaMreInvol {

quietly generate `vl'__1 =.
quietly replace `vl'__1 = 1 if (`vl'==1) | (`vl'==2)
quietly replace `vl'__1 = 2 if (`vl'==3)
quietly replace `vl'__1 = 3 if (`vl'==4) | (`vl'==5)
label values `vl'__1 agreecon

}
```

Mae'r gystrawen uchod yn cymryd newidyn sydd â phum categori ateb “Cytuno’n gryf”, “Tueddu i gytuno”, “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno”, “Tueddu i anghytuno” ac “Anghytuno’n gryf” (e.e. UaQualServ) ac yn ei gywasgu i greu newidyn newydd sydd â thri chategori “Cytuno”, “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” ac “Anghytuno”, gyda “_1” ar ddiwedd enw pob newidyn newydd (e.e. UaQualServ_1).

6.2 SPSS

Rydym yn defnyddio SPSS i gyflawni dadansoddiadau syml fel rhai i ganfod amllder ac i groesdablu. Bydd y moddau a'r cyfrannau a gynhyrchir gan SPSS yn cyfateb i'r allbynnau o Stata. Dim ond wrth gynhyrchu lwfansau ansicrwydd a chyfeiliornadau safonol y bydd angen i chi gymryd cynllun cymhleth y sampl i ystyriaeth.

Cyn cynhyrchu unrhyw ganlyniadau o'r arolwg, rhaid i chi nodi pa bwysoliad rydych am ei ddefnyddio. Mae'r gystrawen isod yn dweud wrth y pecyn meddalwedd eich bod am bwysoli'r data yn ôl 'SampleAdultWeight':

```
WEIGHT BY SampleAdultWeight.
```

Er mwyn ailgodio newidynnau i wneud newidynnau newydd neu gyfuno categorïau, gallwch ddefnyddio'r gystrawen ganlynol:

```
RECODE UaQualServ (1=1) (2=1) (3=2) (4=3) (5=3) (ELSE=Copy) INTO UaQualServ_1.
EXECUTE.

VARIABLE LEVEL UaQualServ_1(NOMINAL).
VALUE LABELS UaQualServ_1
  1.00 'Agree'
  2.00 'Neither Agree nor Disagree'
  3.00 'Disagree'.
EXECUTE.
```

Mae'r gystrawen yn cymryd y newidyn UaQualServ sydd â phum categori ateb “Cytuno’n gryf”, “Tueddu i gytuno”, “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno”, “Tueddu i anghytuno” ac

“Anghytuno’n gryf” ac yn ei gywasgu i wneud newidyn UaQualServ_1, sydd â thri chategori, ac yn rhoi'r labeli “Cytuno”, “Ddim yn cytuno nac yn anghytuno” ac “Anghytuno” iddynt.

Ffordd arall o greu'r un cyfrannau yw defnyddio'r opsiwn 'Custom Tables' yn SPSS i greu is-gyfansymiau, sy'n cyfuno opsiynau ateb 1 a 2, a 3 a 4, fel y mae'r gystrawen ganlynol yn dangos:

```
CTABLES
  /VLABELS VARIABLES=UaQualServ DISPLAY=LABEL
  /TABLE UaQualServ [COUNT COMMA40.0, COLPCT.COUNT 'Col %' F40.1]
  /CATEGORIES VARIABLES=UaQualServ [1, 2, HSUBTOTAL='Agree', 4, 5,
  HSUBTOTAL='Disagree', 3] TOTAL=YES POSITION=AFTER.
```

Drwy redeg dadansoddiad syml o amlder, ceir cyfran ar gyfer newidyn:

```
FREQUENCIES VARIABLES=UaQualServ
  /ORDER=ANALYSIS.
```

Mae'r opsiwn 'Custom Tables' yn cynhyrchu croesdablu, er enghraifft:

```
* Custom Tables.
CTABLES
  /VLABELS VARIABLES=UaQualServnew Gender DISPLAY=LABEL
  /TABLE UaQualServnew [COLPCT.COUNT PCT40.1] BY Gender
  /CATEGORIES VARIABLES=UaQualServnew ORDER=A KEY=VALUE EMPTY=INCLUDE
  /CATEGORIES VARIABLES=Gender [1, 2] EMPTY=INCLUDE.
```

Y fantais o ddefnyddio 'Custom Tables' yw ei fod yn tynnu unrhyw newidynnau sydd â chod am 'werth coll' o'r canlyniadau rydych yn eu cynhyrchu.

7. Cyhoeddi canlyniadau

Drwy gydol y flwyddyn bydd tîm yr Arolwg Cenedlaethol yn cyhoeddi canlyniadau o'r arolwg mewn nifer o ffurfiau.

Cyhoeddir y datganiad ystadegol cyntaf ym mis Mehefin bob blwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r canfyddiadau o gyfweiliadau a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi bwletinaw mwy manwl am bynciau penodol ar ôl hynny. Mae'r holl ddatganiadau ar gael ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Rydym hefyd yn cyhoeddi [dangosydd canlyniadau](#) rhyngweithiol, lle mae defnyddwyr yn gallu dewis y pynciau a'r cwestiynau sydd o ddiddordeb iddynt. Dyma sgrinlun o dudalen pwnc yn y dangosydd canlyniadau:

1. Pori'r pynciau isod:

2. Dewiswch gwestiwn isod i weld y canlyniadau:

Pynciau cyffredinol:

Pynciau manwl:

Cwestiwn:

- ☒ Dangos cwestiynau â chanlyniadau parod
☐ Dangos pob cwestiwn

Ardal leol a'r amgylchedd Chwaraeon a gweithgareddau aw Llesiant a chyllid Plant ac addysg Rhyngwrwyd a'r cyfryngau Arall Democratiaeth a llywodraeth GIG a gofal cymdeithasol Iaith a diwylliant Iechyd poblogaeth	Addysg Addysg gynradd Addysg uwchradd Afiechyd Amddifadedd materol oe... Amgueddfeydd Amser plant o flaen sgrin Anabledd - mynediad Anabledd - trafnidiaeth Ardal ddaearyddol Bioamrywiaeth BMI (Mynegai Màs y Corff) Bodddhad cyffredinol Bodddhad cyffredinol - Syst... Bodddhad cyffredinol - Gwa... Celfyddydau Chwaraeon Cymru - Cyfra... Chwaraeon Cymru - profia... Clwv	Gwybodaeth ddemograffig Rhyw Oedran (bandiau 5 mlynedd) Nifer y plant mewn aelwyd (o dan 16) Cyfeiriadedd rhywiol Ethnigrwydd Y Gymraeg - gallu Deall Cymraeg llafar Siarad Cymraeg Darlenn Cymraeg Ysgrifennu Cymraeg Gallu siarad Cymraeg Y Gymraeg - defnydd Amllder siarad Cymraeg Pobl yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd (dangosydd Ce Newidyn deilliiedig - Gallu i siarad Cymraeg Newidyn deilliiedig - Amllder siarad Cymraeg Llesiant Bodddhad â bywyd Bywyd werth chweil Teimlo'n hapus ddoe Teimlo'n bryderus ddoe Pryder cyffredinol ddoe (grŵp) Teimlad cyffredinol bod pethau sy'n cael eu gwneud mewn bywyd y Teimlo bod modd ymddiried yn y rhan fwyaf o bobl Bodddhad â swydd
---	---	--

[Methu gweld yr hyn rydych yn chwilio amdano? Anfonwch e-bost atom ni!](#)

Dyma enghraifft o siart yn y dangosydd canlyniadau:

Bodddhad â bywyd

Dewis manylion:

Iechyd cyffredinol

Sut i'w ddefnyddio

Pori pynciau eraill


Gwybodaeth dechnegol

Dangos / cuddio bariau

I'w weld yn yr holiadur

Dangos fel tabl

Iechyd cyffredinol, yn ôl bodddhad â bywyd



Dyma enghraifft o dabl yn y dangosydd canlyniadau:

Teimlo synnwyr o gymuned

Dewis manylion:

Oedran (bandiau 5 mlynedd)

Sut i'w ddefnyddio

Pori pynciau eraill

Gwybodaeth dechnegol

I'w weld yn yr holiadur

Dangos fel siart

Teimlo synnwyr o gymuned	Oedran (bandiau 5 mlynedd)														
	16-24			25-44			45-64			65-74			75 a throsodd		
	%	CH Isaf	CH Uchaf	%	CH Isaf	CH Uchaf	%	CH Isaf	CH Uchaf	%	CH Isaf	CH Uchaf	%	CH Isaf	CH Uchaf
Ydw	39	34	43	43	41	46	51	49	53	59	57	61	69	66	71
Nac ydw	61	57	66	57	54	59	49	47	51	41	39	43	31	29	34

Maint y sampl: 10,300

Nodiadau

Cwestiwn: 'Teimlo synnwyr o gymuned'.

Cwestiwn: 'Oedran (5 grŵp)'.

Lwfans ansicrwydd

Manwl (o fewn +/- 2%)
Gweddol fanwl (rhwng +/- 2% a +/- 4%)
Llai manwl (rhwng +/- 4% a +/- 6%)
Lleiaf manwl (fwy na +/- 6%)
-

Ni ddangosir canlyniadau sy'n seiliedig ar lai na 30 o bobl

8. Termau a diffiniadau

Aelwyd

Aelwyd yw un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn o reidrwydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn cadw tŷ gyda'i gilydd – hynny yw, yn rhannu ystafell fyw neu barlwr neu o leiaf un pryd bwyd y diwrnod.

Amcangyfrifon canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yr amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cyfradd ymateb

Canran y bobl a oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg, o blith y rheini a ddewiswyd i gymryd rhan (y sampl).¹

Cystrawen

Iaith gyfrifiadurol a ddefnyddir i gyfarwyddo pecyn meddalwedd i ddadansoddi ac adrodd ar y data.

Ffeil 'Small User Residential Postcode Address' y Post Brenhinol

Set ddata a gynhelir gan y Post Brenhinol sy'n cynnwys yr holl bwyntiau dosbarthu preswyl sy'n hysbys.

Gwaith maes

Casglu gwybodaeth sylfaenol; ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, dyma'r broses o gyf-weld ymatebwyr.

Gwybodaeth ddemograffig

Gwybodaeth am nodweddion pobl (e.e. oed, rhywedd, ethnigrwydd)

Haenu

Rhannu'r boblogaeth yn is-grwpiau ar gyfer samplu.

Is-sampl

Is-set o'r 'sampl' sydd wedi'i dewis ar hap i gymryd rhan mewn arolwg.

Lwfansau ansicrwydd

Mae lwfans ansicrwydd yn rhoi'r amrediad lle mae'r gwir werth yn debygol o fod. Mewn 95% o samplau'r arolwg, bydd y lwfans ansicrwydd o 95% yn cynnwys y ffigur cywir ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael os oedd yr arolwg yn cynnwys y boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf fydd maint y sampl, lletaf fydd y lwfans ansicrwydd.

Pwynt samplu

Pwyntiau samplu yw ardaloedd bach (clystyrau), lle mae sampl o gyfeiriadau wedi'i dewis i gymryd rhan yn yr arolwg.

Pwysoli

Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu pwysoli i leihau bias drwy eu haddasu ar gyfer unrhyw grwpiau sy'n fwy tebygol (e.e. pobl hŷn) neu'n llai tebygol (e.e. pobl iau) o ymateb. Mae pwysoli'n sicrhau bod dosbarthiad oed a rhyw y sampl gyfatebol yn cyfateb i ddosbarthiad

¹ Mae rhagor o fanylion am y ffordd o gyfrifo cyfraddau ymateb yn yr [Adroddiad Technegol](#).

oed a rhyw y boblogaeth ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Drwy wneud hyn, mae'r canlyniadau'n fwy cynrychiadol o'r boblogaeth gyffredinol.

Sampl

Is-set o'r boblogaeth sydd wedi'i dewis i gymryd rhan mewn arolwg.

Sampl gymhleth

Gan fod yr Arolwg Cenedlaethol yn cael ei haenu ar lefel yr awdurdodau lleol, gyda gwahanol debygolrwydd o ddewis pobl sy'n byw yn y gwahanol awdurdodau lleol (h.y. mae cynllun y sampl yn gymhleth), mae'r cyfeiliornadau safonol ar gyfer amcangyfrifon yr arolwg yn fwy yn gyffredinol na'r cyfeiliornadau safonol a fyddai'n deillio o hapsampl syml o'r un maint.

Ymatebydd

Yr oedolyn sy'n 16 oed neu'n hŷn sy'n cael ei ddewis ar hap i ateb cwestiynau'r arolwg.